Mentrau Iaith Cymru

# Disgrifiad Swydd
# Swyddog Marchnata a Chyfathrebu

## Dyletswyddau

Cydlynu gweithgareddau marchnata a chyfathrebu MIC, gan gynnwys:

- Datblygu a gweithredu Cynllun Marchnata i MIC er mwyn hyrwyddo gwaith y Mentrau Iaith a hybu'r Gymraeg yn lleol a chenedlaethol
- Datblygu gwefan MIC ymhellach a'i diweddaru yn rheolaidd
- Sicrhau proffil uchel a gweithgarwch cyson i'r Gymraeg ar y rhwydweithiau cymdeithasol
- Codi'r lefel o ymgysylltu rhwng MIC a chyrff eraill i godi ymwybyddiaeth o weithgareddau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg gan y Mentrau
- Cydlynu ymweliadau MIC â'r Eisteddfodau, a digwyddiadau perthnasol eraill er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a gwaith y Mentrau yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Paratoi cylchlythyr rheolaidd y Mentrau Iaith
- Datblygu ymgyrchoedd marchnata newydd sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg a gwaith y Mentrau Iaith
- Cydweithio â phartneriaid allweddol yn y maes
- Datblygu cysylltiadau â'r Cyfryngau cyfrwng Cymraeg a Saesneg
- Paratoi datganiadau rheolaidd i'r wasg ynglŷn â gwaith y Mentrau Iaith a materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg
- Cydlynu'r broses o gasglu data ar ddigwyddiadau'r Mentrau i fwydo digwyddiadur Cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg
- Cydweithio yn agos gydag Uned y Gymraeg, Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'u hymgyrchoedd marchnata'r Gymraeg
- Cynorthwyo a chydweithio â Swyddogion eraill MIC i gyflawni gweithgareddau a phrosiectau amrywiol
- Paratoi adroddiadau rheolaidd ar y gwaith a gyflawnwyd er mwyn adrodd i Bwyllgor Gweithredol MIC
- Ymgymryd ag unrhyw dasgiau a gofynion eraill rhesymol

## Sgiliau / Profiad hanfodol

- Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu o safon uchel
- Profiad o weithio yn y maes marchnata a / neu â phrofiad o fod yn gyfrifol am farchnata ar lefel sefydliadol
- Y gallu i weithio yn annibynnol heb oruwchwiliaeth gyson gan ddatblygu syniadau a strategaethau newydd
- Cyfathrebu yn rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

- Y gallu i weithio fel rhan o dîm
- Y gallu i yrru a defnydd o drafnidiaeth eich hunan.

## Sgiliau / profiad dymunol

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o ymgyrchoedd marchnata presennol a'r gorffennol sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg
- Dealltwriaeth o waith MIC a'r Mentrau Iaith
- Dealltwriaeth o bolisi iaith a'r maes cynllunio iaith yng Nghymru

Bydd y Swyddog yn atebol i Bwyllgor Gweithredol MIC

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**